# SL(5)584 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) 2020

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 (y "prif Reoliadau").

Caiff y Rheoliadau hyn eu gwneud o dan adrannau 45C(1), (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 ("Deddf 1984") mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARSCoV-2) yng Nghymru, sy'n achosi'r clefyd a elwir yn COVID-19 neu'r "coronafeirws".

Yn benodol, mae'r Rheoliadau hyn yn:

- caniatáu ailagor ffeiriau, meysydd chwarae a champfeydd awyr agored (fodd bynnag, rhaid i'r bobl sy'n gyfrifol am y lleoliadau hyn gymryd pob cam rhesymol o dan reoliad 12 o'r prif Reoliadau i leihau'r risg o ledaenu'r coronafeirws); a
- nodi'n glir fod gan bobl sy'n mynd i fan addoli esgus resymol i ymgynnull (yn unol â gofynion y prif Reoliadau).

## Gweithdrefn

'Gwnaed' cadarnhaol.

Cafodd y Rheoliadau hyn eu gwneud gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Mae'n rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau o fewn 28 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd wedi'i diddymu neu ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gwneud er mwyn iddynt barhau i gael effaith.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Cafodd y pwyntiau a ganlyn eu nodi i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

1. Mae'r troednodyn i reoliad 2(1) yn cyfeirio at Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 ond ymddengys iddo nodi'r rhif SI anghywir. Rydym yn cymryd y dylai gyfeirio at "S.I. 2020/725 (*W.162*)" [*ein pwyslais ni*], yn lle "S.I. 2020/725 (W.163)".

Rydym yn derbyn nad yw'r troednodyn yn rhan o'r gyfraith. Fodd bynnag, os mai diben cynnwys y troednodyn yw cynorthwyo'r darllenydd, byddai'n ddefnyddiol pe gallai'r cyfeiriad gael ei ddiweddaru i

gyfeirio at y rheoliadau cywir.

2. Ymddengys bod geiriau ar goll ar ddechrau paragraff cyntaf fersiwn Saesneg y Nodyn Esboniadol, oherwydd ar hyn o bryd mae'r paragraff yn dechrau fel a ganlyn: "sAct 1984". Rydym yn cymryd y dylai'r paragraff ddechrau fel a ganlyn: "Part 2A of the Public Health (Control of Disease) Act 1984..." (fel ag y mae yn fersiwn Gymraeg y Rheoliadau hyn).

3. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cynnwys pedwar cyfeiriad at "y Rheoliadau gwreiddiol". Ni ddiffinnir y term hwn, ond ymddengys ei fod yn cyfeirio at Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020.

O gofio bod y term 'y Rheoliadau gwreiddiol" yn cael ei ddefnyddio i ddiffinio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020 yn y Memorandwm Esboniadol i'r Prif Reoliadau, rydym o'r farn y byddai'n cynorthwyo'r darllenydd os byddai'r un diffiniad yn cael ei ddefnyddio yn y Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Rheoliadau hyn.

## Y goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd

Ni nodir unrhyw oblygiadau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb y Llywodraeth

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**27 Gorffennaf 2020**